

# Llygryddion Ewtrffeiddio ac Aasideiddio Atmosfferig y DU (UKEAP)

## Defnydd o Ddata

Dim ond 5-10 munud o'ch amser y dylai'r "Cyfle i Roi Sylwadau" byr hwn ei gymryd. Dychwelwch eich sylwadau erbyn 4 Tachwedd 2013

Mae prosiect rhwydweithiau monitro llygryddion aer gwledig Defra, **Llygryddion Ewtrffeiddio ac Aasideiddio Atmosfferig y DU (UKEAP)** yn cynnwys **Uwchsafleoedd Monitro UK EMEP** (Harwell ac Auchencorth), **Rhwydwaith Cenedlaethol Monitro Amonia (NAMN)**, **Rhwydwaith Nwyon Asid ac Erosol (AGA-Net)**, **Rhwydwaith Cemeg Dyddodiadau (Precip-Net)** a'r **rhwydwaith tiwb tryledu NO<sub>2</sub> (NO<sub>2</sub>-Net)**. Caiff gweithrediad y rhwydwaith ei contractio i Ricardo-AEA a Chanolfan Ecoleg a Hydroleg NERC ar y cyd.

Gwefannau perthnasol:

<http://uk-air.defra.gov.uk>

<http://pollutantdeposition.defra.gov.uk/networks>

[http://www.ceh.ac.uk/sci\\_programmes/ukeap-project.html](http://www.ceh.ac.uk/sci_programmes/ukeap-project.html)

Mae Defra, Ricardo-AEA a'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg yn cynnal adolygiad o rwydweithiau cyfansoddol UKEAP i geisio eglurder ynghylch defnydd cyfredol a gofynion monitro yn y dyfodol ynghyd â phroses adolygu contractau.

I'r perwyl hwn, mae'r ddogfen hon yn rhoi cyfle i sefydliadau rhanddeiliaid, gwyddonwyr sy'n cyfrannu at, ac yn defnyddio data o'r rhwydwaith monitro, a phartion eraill sydd â diddordeb i nodi sut y mae data o'r rhwydweithiau yn cael, neu wedi cael ei ddefnyddio. Byddem yn ddiolchgar iawn pe baech yn treulio ychydig o amser yn ateb y cwestiynau isod. Bydd y wybodaeth a rowch yn werthfawr i'n helpu i ystyried faint o waith monitro o dan y rhaglen UKEAP y dylid ei gynnal yn y dyfodol.

	Mesuriadau	# safle	Rhywogaethau cemegol
<b>Precip-Net</b>	<input type="checkbox"/> Cyfansoddiad anorganaidd swmpus dyddodiad pythefnosol	39	Na <sup>+</sup> , NH <sub>4</sub> <sup>+</sup> , K <sup>+</sup> , Mg <sup>2+</sup> , Ca <sup>2+</sup> , Cl <sup>-</sup> , NO <sub>3</sub> <sup>-</sup> , SO <sub>4</sub> <sup>2-</sup> , PO <sub>4</sub> <sup>3-</sup>
<b>NO<sub>2</sub>-Net</b>	<input type="checkbox"/> Pob pedair wythnos	24	NO <sub>2</sub>
<b>AGANet</b>	<input type="checkbox"/> Nwyon misol	30	SO <sub>2</sub> , HNO <sub>3</sub> , HCl
	<input type="checkbox"/> Gronynau misol	30	Na <sup>+</sup> , NH <sub>4</sub> <sup>+</sup> , Ca <sup>2+</sup> , Mg <sup>2+</sup> , SO <sub>4</sub> <sup>2-</sup> , NO <sub>3</sub> <sup>-</sup> , Cl <sup>-</sup> ,
<b>NAMN</b>	<input type="checkbox"/> Nwy misol	85	NH <sub>3</sub>
<b>Uwch-safleoedd EMEP (mesuriadau tan gyntundeb UKEAP)</b>	<input type="checkbox"/> Cyfansoddiad nwy fesul awr <input type="checkbox"/> Cyfansoddiad erosolau fesul awr (PM <sub>10</sub> a PM <sub>2.5</sub> ) <input type="checkbox"/> ANNOX (cemoleuad) <input type="checkbox"/> Cyfansoddiad glaw gwlyb yn unig dyddiol	2	NH <sub>3</sub> , SO <sub>2</sub> , HCl, HONO, HNO <sub>3</sub> Na <sup>+</sup> , NH <sub>4</sub> <sup>+</sup> , K <sup>+</sup> , Mg <sup>2+</sup> , Ca <sup>2+</sup> , Cl <sup>-</sup> , NO <sub>3</sub> <sup>-</sup> , SO <sub>4</sub> <sup>2-</sup> NO <sub>2</sub> , NO Na <sup>+</sup> , NH <sub>4</sub> <sup>+</sup> , K <sup>+</sup> , Mg <sup>2+</sup> , Ca <sup>2+</sup> , Cl <sup>-</sup> , NO <sub>3</sub> <sup>-</sup> , SO <sub>4</sub> <sup>2-</sup> , PO <sub>4</sub> <sup>3-</sup> F <sup>-</sup>

Anfonwch unrhyw ymholiadau ac atebion at Christine Braban (chri2@ceh.ac.uk)

Mae NERC yn gorfod cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac mae'n bosibl y caiff unrhyw ateb a gyflwynwch yn cael ei ddatgelu gan NERC oni bai ei fod wedi'i eithrio rhag ei rydhau o dan y Ddeddf. Gellir storio unrhyw ddeunydd a gyflwynir i NERC mewn system rheoli cofnodion electronig at ddibenion yr Adolygiad hwn. Os nac ydych am i'ch ymateb gael ei storio, nodwch hynny wrth anfon eich ymateb at Christine Braban.

**C1. Rhwydweithiau UKEAP: Mae'n debygol y gallai fod angen gostwng nifer y safleoedd monitro'n sylweddol er mwyn sicrhau arbedion costau. A wnewch chi nodi os ydych chi'n defnyddio data o safle neu safleoedd UKEAP penodol a dywedwch ar gyfer beth y defnyddiwch y data.**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu safle Rhwydwaith Newid Amgylcheddol (ECN) Eryri mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Fel ategiad i'r gweithgaredd hwn, cynhelir rhaglenni samplu hefyd ar ran Precip-Net, NO2-Net, AGANet a NAMN. Defnyddir y data a geir o'r safle fel gwybodaeth i gefnogi'r data a gynhyrchir o dan raglen samplu'r ECN ar gyfer y safle hwn.

Yng nghyd-destun ehangach y DU, anaml y bydd Cyrff Cadwraeth Natur Statudol y DU yn defnyddio data'n uniongyrchol o'r rhwydweithiau hyn (ac eithrio er mwyn cael gafael ar adroddiadau ECN/Rhwydwaith Bioamrywiaeth Newid yn yr Hinsawdd er enghraifft). Fodd bynnag, rydym yn comisiynu ymchwil / adeiladu tystiolaeth drwy drydydd partïon yn aml sy'n dibynnu'n drwm ar ddata a gynhyrchir gan y rhwydweithiau hyn. Mae hyn yn ein helpu i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth gan ystyried effeithiau llygredd aer. Hefyd, mae agweddau gofodol ar gasglu data yn rhoi gwybodaeth gefndirol hanfodol i gefnogi cronfa ddata APIS ([apis@ceh.ac.uk](mailto:apis@ceh.ac.uk)), yn enwedig er mwyn cefnogi gwaith achos sy'n ymwneud â diwydiant a thrydydd partïon.

Mae'r data o'r rhwydwaith yn allweddol hefyd fel sail i waith mapio dyddodiad y DU. Mae hyn yn gwbl hanfodol nid yn unig i asesu safleoedd ar gyfer gwaith achos ond hefyd, bydd dibyniaeth gynyddol ar y data wrth i ni ddatblygu trefniadau adrodd ar Erthygl 17 a dyddodiad nitrogen ar lefel y DU. Gallai cynnydd yn ansicrwydd y model wedi'i achosi gan leihad yn nifer y safleoedd monitro dyddodiad arwain at ganlyniadau difrifol arwyddocaol.

**C2. Uwchsafleoedd EMEP Auchencorth Moss a Harwell: Mae'n debygol y bydd angen lleihau'r gwaith mesur yn sylweddol. Ydych chi neu ydych chi wedi defnyddio data o'r safleoedd hyn?**

Nid ydym yn defnyddio data o'r safleoedd hyn yn uniongyrchol.

### C3. Sylwadau pellach

*Mae NERC yn gorfod cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac mae'n bosibl y caiff unrhyw ateb a gyflwynwch yn cael ei ddatgelu gan NERC oni bai ei fod wedi'i eithrio rhag ei rydhhau o dan y Ddeddf. Gellir storio unrhyw ddeunydd a gyflwynir i NERC mewn system rheoli cofnodion electronig at ddibenion yr Adolygiad hwn. Os nac ydych am i'ch ymateb gael ei storio, nodwch hynny wrth anfon eich ymateb at Christine Braban.*

1. Mae cydleoiliad ffactorau newidiol a gofnodwyd ar un safle yn fantais ychwanegol i werth y data canlyniadol.

2. Sefydliad sydd newydd ei ffurfio yw Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cyfuno Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru) a Chomisiwn Coedwigaeth (Cymru). Gan ystyried ein bod yn sefydliad newydd, bu'n anodd pennu a oes aelodau eraill o staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio data a gynhyrchir gan UK-EAP hefyd.

**Diolch i chi am eich  
amser!**

*Mae NERC yn gorfod cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac mae'n bosibl y caiff unrhyw ateb a gyflwynwch yn cael ei ddatgelu gan NERC oni bai ei fod wedi'i eithrio rhag ei rydhhau o dan y Ddeddf. Gellir storio unrhyw ddeunydd a gyflwynir i NERC mewn system rheoli cofnodion electronig at ddibenion yr Adolygiad hwn. Os nac ydych am i'ch ymateb gael ei storio, nodwch hynny wrth anfon eich ymateb at Christine Braban.*